**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**183 - Rheoliadau Cynnyrch Organig (Cynhyrchu a Rheoli) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydynt |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 91 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw’n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn sicrhau y caiff rheolau organig eu diweddaru wrth baratoi at 31 Rhagfyr 2020, sef diwedd Cyfnod Pontio Ymadael â’r UE, drwy ddiwygio diffygion yn neddfwriaeth yr UE a ddargedwir. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i sicrhau bod y Rheoliadau'n adlewyrchu'n ddigonol y Protocol ynghylch Iwerddon/Gogledd Iwerddon i'r Cytundeb Ymadael (“y Protocol”).

Bydd y Rheoliadau’n diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chynhyrchu organig ac is-ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sydd,

ynddi ei hun, yn diwygio deddfwriaeth cynhyrchion organig yr UE a ddargedwir. Bydd y diwygiadau'n sicrhau cysondeb â'r Protocol ac yn gwneud rhagor o ddiwygiadau gweithredu. Cafodd yr is-ddeddfwriaeth ddomestig bresennol sydd, ynddi ei hun, yn diwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir ei drafftio ar gyfer y DU ar y sail y byddai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb. Gan yr ymadawodd y DU â'r UE ar 31 Ionawr 2020, gyda chytundeb ar waith, mae angen diweddaru'r ddeddfwriaeth i adlewyrchu hyn a darpariaethau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn benodol, y Protocol.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Nid yw datganiad Llywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2020 yn nodi pa rai o bwerau deddfwriaethol y Senedd na pha rai o bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mae'r cynghorwyr cyfreithiol yn argymell ceisio eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.